H. J. HEINZ

Tun beans

(penderfyniad / gweld cyfle)

Pan fyddwch ar eich cythlwng rwy'n siŵr y buasech yn bwyta unrhyw beth! Beth am ffa pob ar dost neu bowlenaid o gawl poeth? Y tro nesaf y byddwch yn cael cawl neu ffa pob edrychwch yn ofalus ar y tun. Ydio'n un o duniau HEINZ?

Pan oedd Heinz, neu Henry a defnyddio ei enw cyntaf, yn fachgen bach ei fwynhad pennaf oedd cael mynd am dro i'r ardd. Yno byddai'n tyfu pob math o lysiau. Pan fyddai'r llysiau'n barod byddai Henry yn mynd o gwmpas y tai i'w gwerthu. Ar ddiwedd wythnos byddai wedi gwneud pres poced ardderchog. Ar ôl iddo ddechrau gweithio yn y gwaith brics efo'i dad roedd yn dal i dyfu llysiau a'u gwerthu o ddrws i ddrws. Weithiau byddai'n codi am bedwar o'r gloch y bore er mwyn codi'r llysiau a'u pacio'n barod pan fyddai'n dod adref o'i waith gyda'r nos. A ffwrdd â fo wedyn o dŷ i dŷ i werthu a gwneud mwy o bres poced. Ymhen rhai blynyddoedd roedd wedi gwneud digon o arian i brynu siâr yng ngwaith brics ei dad. Ond roedd yn dal i weithio yn yr ardd.

Dechreuodd ei fusnes ei hun trwy werthu marchruddygl wedi'i wneud o blanhigion yn ei ardd. Yn fuan iawn roedd cynnyrch newydd yn cael eu gwerthu – pob mathau o sawsiau a phicyl. Ond daeth tro ar fyd. Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg bu argyfwng ariannol yn America. Aeth Henry, fel sawl un arall yn fethdalwr. Doedd gan ei deulu ddim ceiniog ar eu helw, doedd ganddyn nhw ddim arian i brynu bwyd na dillad.

Yn ystod y cyfnod tywyll hwn cofiodd Henry am enwau pawb yr oedd arno ddyled iddyn nhw a'u hysgrifennu mewn llyfr nodiadau. Dechreuodd pethau wella a daeth awydd ar Henry unwaith eto i gychwyn busnes newydd. Yn anffodus, yn ôl y gyfraith, doedd gan neb oedd wedi bod yn fethdalwr hawl i agor ei fusnes ei hun. Felly, ffurfiodd gwmni gan ddefnyddio enwau ei frawd John a'i gefnder Frederick.

Gweithiodd Henry a'i gyd-weithwyr yn galed ac ymhen dim roedd y busnes ar ei draed. Dechreuodd y cwmni wneud elw a dyna pryd yr aeth Henry yn ôl at ei lyfr nodiadau. Aeth drwy bob enw'n ofalus a bob mis byddai'n talu cyfraniad i'r rheiny roedd arno ddyled iddyn nhw. Bob dydd, o'r bron, byddai pobl yn dod i guro ar ddrws y ffatri i ofyn am arian. Pobl dlawd oedd y rhain. Ni fyddai

Henry byth yn gwrthod neb. Byddai'n cofio am yr amser caled a gafodd ef a'i deulu yn ystod cyfnod anodd yn hanes ei wlad. Yn y cyfnod hwn roedd gweithwyr y ffatri yn gweithio o dan amodau gwell o lawer nag yr oedden nhw adref. Ar ddiwedd yr wythnos byddai'r cyflog yn werth i'w gael. Roedd yn llawer gwell nag oedd gweithwyr eraill yn ei gael mewn ffatrïoedd eraill yn yr ardal. I Henry roedd gofalu am ei weithwyr yn bwysig. O'u trin yn iawn, byddent hwythau'n barod i roi o'i gorau iddo yntau.

Ymhen rhai blynyddoedd caniataodd y gyfraith iddo agor ei fusnes ei hun. Bellach roedd Henry yn cael defnyddio ei enw a'i gyfenw ei hun, H. J. Heinz. Cofrestrwyd y cwmni o dan ei enw ef ei hun. Pan ddaeth drosodd i Lundain ym 1886 ymwelodd â siop fwyd enwog Fortnum a Mason. Ar ôl iddyn nhw weld ei gynnyrch yn fuan iawn roedd nwyddau H. J. Heinz ar werth yn y siop hon.

Adnod: "Yn wir, rwy'n dweud wrthych, yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch." Mathew 25:40

Gweddi: Wnei di fy nysgu, O Dduw, i barchu pawb ac i roi o'm gorau i bawb sydd mewn angen. Amen.

Trafod:

- Pa mor bwysig ydi gofalu am y gweithwyr a rhoi cyfle teg iddyn nhw?
- Gwnewch restr o gynnyrch H. J. Heinz heddiw.

H. J. HEINZ